Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Gylch Chwarae Nant y Groes**
**Ysgol Nant y Groes**
**Greenfield Road**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL29 8ET**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Ysgol Nant y Groes

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Nant y Groes |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Mrs Cheryl Curran |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ddim yn berthnasol |
| Person â gofal | Mrs Jamie Angus-Aubrey |
| Nifer y lleoedd | 42 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 11 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.00am i 3.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nac ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 01/03/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/05/2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 09/07/2019 |

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Nid yw'n rhagfynegi, nodi na bodloni anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, y gwasanaeth. Gallai hyn fod oherwydd bod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg yn bennaf ac nad yw'r darparwr yn bwriadu cynnig na hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella medrau siarad Cymraeg y plant

A2 Gwella cynllunio i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A3 Gwella darpariaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant yn llwyddiannus

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â chreu amgylchedd hynod feithringar a gofalgar i ategu lles a datblygiad personol a chymdeithasol plant, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn ymgartrefu'n gyflym ac yn hapus iawn mewn gweithgareddau ac yn gwahanu'n hyderus oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn effeithiol ac yn datblygu ymdeimlad cryf o les. Maent yn gwneud dewisiadau hyderus. Er enghraifft, maent yn dewis yr hyn yr hoffent ei wneud wrth iddynt gyrraedd ac yn fodlon dewis lliw'r papur sydd ei eisiau arnynt ar gyfer eu gludwaith. Maent yn cyfrannu syniadau'n rhwydd, fel awgrymu sut i wneud lloches pan fydd yn dechrau bwrw glaw. Maent yn mynegi eu hunain yn dda ac yn cyfleu eu hanghenion yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt ofyn i wisgo eu cotiau i fynd yn ôl i chwarae y tu allan.

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda â'i gilydd, yn dechrau gwneud ffrindiau ac yn dangos anwyldeb mawr tuag at eu gweithwyr allweddol. Maent yn fodlon ac yn hapus, ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac ymarferwyr, er enghraifft wrth ymuno â'r symudiadau mewn stori. Mae plant yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau ac yn dilyn prociau cof yn ymwneud â rheolau syml yn effeithiol, fel peidio â rhedeg a bod yn garedig â'i gilydd.

Mae bron yr holl blant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Gyda chymorth gan ymarferwyr, maent yn hapus wrth rannu offer ac yn dechrau aros eu tro yn briodol. Mae bron pob plentyn yn cydweithredu'n dda ac yn cydweithio'n effeithiol, er enghraifft i roi trac trenau at ei gilydd. Mae ychydig o'r plant hŷn yn dechrau deall sut i ystyried a gofalu am anghenion pobl eraill, er enghraifft helpu plentyn sydd wedi disgyn trwy ddweud wrth ymarferydd ble'r oeddent wedi brifo. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd effeithiol o ran eu dealltwriaeth o dda a drwg, ac yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain yn dda â help a chymorth gan ymarferwyr.

Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau dysgu, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n dda wrth iddynt ganu wrth chwarae. Maent yn cael hwyl ac mae eu brwdfrydedd yn heintus wrth iddynt wahodd ymarferwyr i ymuno â nhw. Mae plant yn ymgysylltu'n dda ac mae bron pob un ohonynt yn ymuno'n frwdfrydig â'r gweithgareddau sydd ar gael. Er enghraifft, mae ganddynt ddiddordeb yn y malwod mawr Affricanaidd a darganfod am wahanol rannau pysgodyn. Mae bron pob un ohonynt yn dyfalbarhau â thasgau ac yn canolbwyntio ar gyfnod da, er enghraifft wrth iddynt fesur faint o ddŵr sydd ei angen arnynt er mwyn i degan pysgodyn arnofio. Mae'r plant yn ddysgwyr hyderus sydd eisiau rhannu'r hyn y maent yn ei wneud â phlant eraill a'r ymarferwyr sydd o'u cwmpas.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod o fedrau'n effeithiol ac yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau siarad a gwrando cynnar. Maent yn dod yn

fwyfwy hyderus ac yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ysgwyddo cyfrifoldebau syml, fel bod yn Helpwr Heddiw.  Mae bron pob un ohonynt yn llawn cymhelliant ac mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn llwyddiannus.  Er enghraifft, mae plant hŷn yn casglu ac yn gwisgo eu ffedogau eu hunain i chwarae yn y dŵr, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn dewis darnau o ffrwyth o bowlen ac yn arllwys eu diodydd eu hunain gyda chymorth.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Yn ystod eu hamser yn y lleoliad, mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu o’u mannau cychwyn.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o blant yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau’n gynhwysfawr, er enghraifft wrth iddynt sefyll mewn llinell i olchi eu dwylo yn ystod amser byrbryd. Mae llawer o blant yn cyfathrebu’n fedrus â’u cyfoedion ac oedolion, er enghraifft wrth esbonio pa fwyd y dylai môr-leidr ei fwyta.  Maent yn sgwrsio’n hapus am yr hyn y maent yn ei ‘goginio’ yn yr ardal chwarae rôl a pha ffrwythau maent yn hoffi eu bwyta yn ystod amser byrbryd.  Mae ychydig o blant yn trin a thrafod llyfrau’n briodol. Yn ystod amser cylch, mae’r rhan fwyaf o blant yn rhoi sylw gofalus i stori ac yn ymuno’n llwyddiannus.  Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn deall diben ysgrifennu ac yn datblygu eu medrau gwneud marciau yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu gwahoddiadau a llythyrau diolch, a thynnu llinellau syth ag igam-ogam â sialc y tu allan.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd da.  Er enghraifft, maent yn ymuno’n llwyddiannus wrth gyfrif ymlaen i ddeg ac mae’r lleiafrif ohonynt yn cyfrif yn ôl i un â chymorth.  Mae llawer ohonynt yn adnabod rhifau i bump yn llwyddiannus ac yn cyfrif pum gwrthrych yn gywir.  Mae llawer o blant yn datblygu dealltwriaeth dda o siapiau sylfaenol, er enghraifft wrth drafod siâp baner môr ladron.

Gyda chymorth, mae llawer o blant yn datblygu medrau TGCh syml yn briodol.  Er enghraifft, maent yn gwybod sut i droi tegan telesgop ymlaen ac i ffwrdd.  Gyda chymorth, mae ychydig ohonynt yn dechrau tynnu lluniau’n gymwys â llechen gyfrifiadurol.  Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw medrau TGCh plant wedi eu datblygu’n ddigonol.

Mae llawer o blant yn datblygu eu dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion Cymraeg syml yn briodol.  Maent yn ymuno’n rheolaidd â chaneuon a rhigymau, ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau yn y Gymraeg.  Fodd bynnag, ychydig iawn o’r plant sy’n defnyddio geiriau neu ymadroddion Cymraeg heb anogaeth.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda.  Er enghraifft, maent yn mynd ar gefn beiciau, dringo ar offer ac yn cydbwyso ar drawst bach yn

hyderus. Mae llawer ohonynt yn gwella eu medrau cydsymud yn llwyddiannus wrth iddynt ddefnyddio ystod o frwsys ac offer. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau datrys problemau yn effeithiol yn ystod gweithgareddau chwarae y tu mewn a'r tu allan, er enghraifft wrth iddynt wneud garej sy'n ddigon mawr i gar gan ddefnyddio blociau magnetig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus trwy weithgareddau fel paentio a thynnu lluniau. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda, er enghraifft i wneud llong môr ladron ar gyfer yr ardal chwarae rôl.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo'r plant yn dda i'w cadw'n iach ac yn ddiogel. Maent yn deall ac yn dilyn ystod drwyadl o bolisïau a gweithdrefnau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys dilyn arfer hylendid da wrth baratoi bwyd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn paratoi byrbrydau a diodydd iach ac yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant wneud gweithgarwch corfforol. Er enghraifft, maent yn darparu cotiau gwrth-ddŵr er mwyn i'r plant allu chwarae y tu allan pan fydd y tywydd yn wlyb.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr iawn o bob un o'r plant a'u hanghenion unigol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr wedi meithrin perthynas arbennig o gref â'r plant, ac maent yn barchus ac yn ofalgar iawn. Maent yn defnyddio strategaethau hynod effeithiol sy'n galluogi plant, sy'n aml yn aflonydd wrth iddynt gyrraedd, i ymdawelu'n gyflym iawn. Mae'r rhain wedi eu teilwra'n dda iawn i roi cymorth ystyrlon i unigolion a gwneud i'r plant deimlo'n arbennig. Maent yn ymdrin ag ymddygiad heriol mewn ffyrdd hynod effeithiol. Maent ganddynt agwedd dawel ac amyneddgar iawn ac maent yn defnyddio ystod o strategaethau defnyddiol yn hynod gyson. Mae ymarferwyr yn parchu urddas plant yn fawr, er enghraifft wrth ganiatáu iddynt orffen gwisgo yn yr ystafell ymolchi cyn i blant eraill fynd i olchi eu dwylo.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant mewn ffordd dosturiol a chadarnhaol iawn, heb amharu ar chwarae a dysgu o gwbl. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ethos hynod anogol y lleoliad. Mae ganddynt ddisgwyliadau cyson uchel ac maent yn dangos lefel ragorol o fedr a sensitifrwydd wrth helpu'r plant i ymdawelu wrth iddynt gyrraedd a'u cynorthwyo fel eu bod yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les plant. Mae ymarferwyr yn gosod terfynau realistig y mae plant yn ymateb iddynt yn gadarnhaol iawn. Maent yn cynorthwyo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn eithriadol o dda. Er enghraifft, maent yn ymyrryd yn fedrus iawn yn chwarae'r plant i'w helpu i ddysgu sut i ryngweithio â'i gilydd yn effeithiol a chydymffurfio ag arferion y lleoliad. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol a hynod atyniadol y maent yn gwybod y bydd y plant yn eu mwynhau, ac yn adolygu eu harfer yn gyson i ymateb i anghenion a diddordebau cyfnewidiol y plant. Er enghraifft, maent yn chwarae ochr yn ochr â'r

plant mewn modd sensitif ac yn ymyrryd yn effeithiol, fel cyflwyno mwy o wrthrychau i ymestyn eu medrau cyfrif.

Mae ymarferwyr yn dangos diddordeb mawr mewn syniadau'r plant. Maent yn gwybod pryd i gynorthwyo chwarae'r plant a phryd i gymryd cam yn ôl a gadael iddynt wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn ofalus i beidio ag ymyrryd yn rhy gyflym pan fydd plant yn rhoi cynnig ar 'gerdded yr astell' trwy gydbwyso ar astell isel y tu allan. Mae ganddynt lawer o amser i'r plant bob amser, maent yn eu hannog â chanmoliaeth ac yn ymuno â'u chwarae digymell yn llawn hwyl. Er enghraifft, maent yn ymateb i gyfleoedd i neidio mewn pyllau dŵr a chysgodi rhag y glaw pan fyddant yn codi. Mae hyn yn ategu lles plant yn hynod effeithiol.

Mae ymarferwyr yn arsylwi plant ac yn olrhain eu cynnydd yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio arsylwadau'n effeithiol i gynllunio a darparu ar gyfer camau nesaf plant yn eu dysgu a bodloni eu hanghenion unigol. Mae trefniadau hynod effeithiol i feithrin plant. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn rhoi amser iddynt ddechrau ymgartrefu cyn dyrannu gweithwyr allweddol, ac yn ystyried pa ymarferydd y mae'r plentyn yn hoffi bod gydag ef/hi ac yn cael ei (d)denu ato/ati'n naturiol.

Mae gan y lleoliad drefniadau gwerthfawr i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda ag asiantaethau arbenigol i ddarparu cymorth buddiol i unigolion, gan gynnwys datblygu iaith a lleferydd. Maent yn paratoi ac yn gweithredu cynlluniau defnyddiol, ac yn cydweithio'n agos â rhieni.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu ystod werthfawr o brofiadau dysgu buddiol dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r plant yn dda. Mae gweithgareddau'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus ac yn galluogi plant i wneud dewisiadau a dysgu trwy chwarae. Mae ymarferwyr yn ymgynghori'n effeithiol â phlant ynghylch eu diddordebau yn rheolaidd ac yn ymgorffori eu syniadau yn eu cynlluniau. Er enghraifft, er mwyn ymateb i awgrymiadau plant, maent yn darparu cyfleoedd i wneud hetiau môr ladron a llong môr ladron ar gyfer yr ardal chwarae rôl.

Mae ymarferwyr yn holi plant yn fedrus ac yn herio pob gallu'n briodol, er enghraifft wrth gyfrif faint o wrthrychau sy'n arnofio ac yn suddo. Maent yn cynorthwyo plant i ddatblygu eu medrau hunangymorth yn effeithiol, er enghraifft trwy sicrhau y gallant fanteisio ar ystod o adnoddau dan do ac yn yr awyr agored yn annibynnol. Maent yn defnyddio'r mannau dan do ac awyr agored yn dda i ddarparu gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb plant yn llwyddiannus ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Maent yn darparu cydbwysedd priodol rhwng dysgu dan gyfarwyddyd oedolion a dysgu sy'n cael ei sbarduno gan blant.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o brofiadau dysgu gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn raddol.  Er enghraifft, mae gweithgareddau fel cyfrif eitemau sy'n arnofio neu'n suddo yn datblygu medrau plant yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r lleoliad yn darparu ystod addas o adnoddau TGCh.  Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon da bob tro i sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau TGCh yn briodol ac yn systematig.

Mae ymarferwyr yn rhannu ystod briodol o ganeuon Cymraeg yn hyderus ac yn effeithiol, ac yn cyflwyno geiriau ac ymadroddion syml yn briodol yn ystod cyfnodau grŵp.  Fodd bynnag, nid ydynt yn cynorthwyo plant yn ddigon da iddynt i ddatblygu eu hyder i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn annibynnol.  Mae ymarferwyr yn darparu ystod briodol o weithgareddau i blant ddysgu am y byd ehangach a dathliadau o ddiwylliannau gwahanol.  Er enghraifft, maent yn gwneud llusernau ac yn dawnsio â draig i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Trwy ystod eang o brofiadau dysgu, mae ymarferwyr yn hybu datblygiad cymdeithasol, moesol ac ysbrydol yn dda.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog ymdeimlad o ryfeddod a pharchedig ofn yn llwyddiannus wrth iddynt helpu plant i edrych yn ofalus ar gennau pysgodyn ac archwilio eu gwedd.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant ddysgu am bethau byw a gofalu amdanynt, er enghraifft wrth iddynt wneud peli hadau adar i'w hongian y tu allan.

Mae ymweliadau rheolaidd â'r gymuned leol yn darparu profiadau gwerthfawr sy'n cyfoethogi dysgu'r plant.  Er enghraifft, ceir ymweliadau i'r traeth lleol i ddod o hyd i gregyn o wahanol feintiau ac i'r blwch post i bostio cerdyn Nadolig.  Mae ymarferwyr yn ailddefnyddio ystod fach o ddeunyddiau'n fuddiol, gan gynnwys papur yn yr ardal gwneud marcio a rholiau carped ar gyfer yr ardal adeiladu mawr.  Mae hyn yn cyfrannu at helpu'r plant i ddysgu'n briodol am gynaliadwyedd.  Mae ymarferwyr yn cynnal asesiadau dyddiol defnyddiol y maent yn eu cofnodi'n briodol, ac mae'r rhain yn llywio'r camau nesaf ar gyfer dysgu yn gynhwysfawr.  Mae adroddiadau i rieni yn amlinellu meysydd lle mae plant yn gwneud cynnydd da, wedi'u hategu'n rymus gan luniau.  Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r rhain ac yn eu cadw fel cofarwyddion gwerthfawr.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae trefniadau diogelwch da yn sicrhau y gofelir am blant mewn amgylchedd diogel.  Mae ymarferwyr yn cynnal gwiriadau dyddiol cadarn o'r ardaloedd dan do ac awyr agored er mwyn sicrhau bod yr holl offer yn lân ac yn ddiogel.  Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant yn sensitif i'w galluogi i ddysgu trwy fentro'n briodol, er enghraifft wrth iddynt godi tarpolin i wneud lloches rhag y glaw.

Mae'r adeilad yn darparu digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd ac mae'r ystafelloedd wedi eu gosod yn feddylgar i ddarparu cyfleoedd da i ddysgu trwy chwarae. Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd dysgu cyfoethog sy'n groesawgar ac wedi ei gynnal a chadw'n dda. Mae digonedd o syniadau creadigol y plant yn cael eu harddangos, sy'n rhoi iddynt ymdeimlad o berthyn. Mae lluniau, sy'n hongian yn ddeniadol o frigau, yn dangos y plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau ac ymweliadau â'r gymuned leol. Mae hyn yn helpu i greu amgylchedd dysgu apelgar.

Mae adnoddau'n addas ar gyfer oedran a chyfnod datblygu'r plant. Mae digonedd o deganau ac offer o ansawdd da, sy'n darparu amrywiaeth a dewis i'r plant ac yn ategu eu dysgu'n dda. Mae adnoddau'n cydymffurfio â safonau diogelwch ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu storio'n isel mewn amrywiaeth o gynwysyddion diddorol, er mwyn i'r plant allu eu hestyn yn annibynnol. Mae adnoddau naturiol a chynaliadwy, fel cegin fwd, pren, cregyn a cherrig mân, yn cyfoethogi chwarae plant yn effeithiol, ac mae tywod a dŵr yn gwneud traeth cyffrous i fôr ladron. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn darparu ystod ddigon eang o adnoddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a helpu'r plant i ddysgu am y byd amrywiol rydym yn byw ynddo. Mae dodrefn o uchder a meintiau gwahanol yn galluogi'r plant i chwarae a bwyta'n gyfforddus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r person â gofal yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer hi ei hun a'r ymarferwyr. Mae ganddi weledigaeth glir i ddarparu a datblygu gofal ac addysg o ansawdd uchel. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol â phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad. Mae hyn yn creu ethos gofalgar a chefnogol dros ben, a diwylliant cryf o ddiogelwch. Mae cyfathrebu'n gryf yn y lleoliad ac mae hyn yn golygu bod gan bob un o'r ymarferwyr lais, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael eu hysbysu'n llawn am waith y lleoliad. Mae datganiad cryf o bwrpas, sy'n amlinellu nodau ac amcanion cynhwysfawr ac yn rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau defnyddiol yn ategu arferion gweithio yn dda.

Mae'r person â gofal a'r person cofrestredig yn arwain y lleoliad yn effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth drwyadl am gryfderau'r lleoliad a dealltwriaeth glir o ba welliannau sydd eu hangen. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn gwybod beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda ac yn chwarae rhan weithredol mewn nodi meysydd ar gyfer gwella. Mae hyn wedi codi safonau addysgu a dysgu, er enghraifft trwy annog ymarferwyr i ddefnyddio mwy o iaith fathemategol wrth iddynt ryngweithio â'r plant.

Mae systemau recriwtio yn gadarn ac yn sicrhau bod digon o ymarferwyr â chymwysterau perthnasol a phriodol, a phrofiad o weithio â phlant ifanc. Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau ymsefydlu yn effeithiol er mwyn i'r holl ymarferwyr ddeall a gweithredu polisïau ac arferion. Mae pob un o'r ymarferwyr yn gwerthuso eu gwaith dyddiol trwy reoli perfformiad yn rheolaidd, ac maent yn blaenoriaethu'r meysydd y maent am eu gwella yn llwyddiannus. Er enghraifft, rhoddodd ymarferwyr

raglen iaith a lleferydd ar waith yn gyson dda, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les plant a datblygu iaith.  Mae'r pwyllgor rheoli yn arfarnu perfformiad arweinydd y lleoliad yn briodol ac yn nodi cyfleoedd hyfforddiant i'w chynorthwyo'n fuddiol.  Mae pob un o'r ymarferwyr wedi elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol.  Er enghraifft, mae hyfforddiant ar sut i ddefnyddio adnoddau mathemategol wedi galluogi plant i ddechrau deall y berthynas rhwng rhifau.

Mae arweinwyr yn ymgynghori'n effeithiol â rhieni i greu darlun o'u plentyn cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad.  Mae hyn yn cyfrannu at les plant ac yn hyrwyddo partneriaeth gref â rhieni.  Mae ymarferwyr yn sicrhau bod rhieni'n cael digon o wybodaeth am gynnydd eu plant ac yn rhoi gwybodaeth am y lleoliad trwy drafodaethau anffurfiol a chylchlythyron rheolaidd.  Mae polisi 'drws agored' effeithiol, lle gall rhieni aros a chwarae gyda'u plant ar unrhyw adeg.  Mae ymarferwyr yn gwrando ar bryderon rhieni ac yn rhoi arweiniad a chyngor defnyddiol.  Mae rhieni'n canmol lefel y cyfathrebu gan ymarferwyr yn fawr.  Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol â'r gymuned ehangach.  Er enghraifft, mae cysylltiad gwerthfawr iawn â'r ysgol gynradd sydd ar yr un safle, sydd o fudd i'r plant wrth iddynt bontio i'r ysgol yn effeithiol ar sail amser llawn.  Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i gyngor a chymorth gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol i ddatblygu eu harfer.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/09/2019